

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
ABERTAWA SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.org

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir y Pedair Tudalen  
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys y Pedair Tudalen.

## Gweddio dros benrhyn Corea

### *Dyma ail ran adroddiad o Gyngor Cyffredinol Cymuned Byd-eang yr Eglwys Diwygiedig gan Noel Davies*

Ar adeg pan mae bygythion mawr i heddych ar waith yn y penrhyn, roedd heddych a chymod rhwng Gogledd a De Corea yn un o brif themâu'r Cyngor. Croesawyd cynrychiolwyr yr eglwys Diwygiedig yn y Gogledd yn ogystal â'r De i'r llwyfan a chafwyd datganiad cryf yn galw am ymdrechion byd-eang i hyrwyddo cymod a heddych rhwng y ddwy wlad. Roedd eu gweld ar y llwyfan gyda'i gilydd yn brofiad dwys, o sylweddoli mor boenus a fu'r rhanriad 'artiffisial' rhwng pobl y ddwy wladwriaeth ers dros saith deg mlynedd.

**Cinio Agape**

Braint arbennig i mi oedd cael gwahoddiad personol i fod mewn cinio agape ar gyfer cynrychiolwyr Gogledd a De Corea a'u ffrindiau. Roedd yn gyfle i ni gydgyfuno gyda Christnogion De a Gogledd, i glywed cyfarchion o'r De a'r Gogledd a gwrando ar swyddogion y Cymuned Byd-eang yn cynnig cefnogaeth a chydgefnogaeth wrth inni gydgardded gyda Christnogion niferus y penrhyn hwn ar adeg o argyfwng enbyd. Cawsom glywed cyfarchion gan arweinyddion



cynrychiolwyr eglwys De Corea a Gogledd Corea (a welir yn y lluniau) yn ystod y cinio agape.

**Myfyriwr**

Fe dderbyniais y gwahoddiad hwn

oherwydd i un o weinidogion Eglwys Bresbyteraidd De Corea ddod i Goleg y Drindod, Caerfyrddin, pan oeddwn yn darlithio yno, i ddilyn cwrs Meistr mewn Astudiaethau

Ecwmenaidd o dan fy nghyfarwyddyd. Bellach mae Kim Munkee ar staff y Cymuned

Byd-eang. Roedd yn braf iawn i'w gyfarfod eto a deall ei fod yn chwarae rhan allweddol yn hyrwyddo prosiectau cyfiawnder cymdeithasol yn fyd-eang. Kim Munkee sydd ar y dde yn y llun ohonom gyda Llywydd Eglwys Bresbyteraidd De Corea.

**Heddych a Chymod**

Ar 15 Awst bob blwyddyn y mae pobl penrhyn Corea yn cofio eu rhyddhad o afael y



Siapaneaidd ar 15 Awst 1945. Eleni gwahoddodd Cyngor Eglwys'r Byd a Chymuned Byd-eang yr Eglwys Diwygiedig Gristnogion y byd i weddio ar y Sul, 13 Awst, dros heddych a chymod i'r ddwy wlad ac am berthynas newydd rhwng pobl ac eglwys'r penrhyn. Diolch am gyfle inni fel cyd-Gristnogion uniaethu'n hunain ag aelodau'r teulu sy'n mynd drwy gyfnod enbyd a brawychus iddynt hwy ac i bawb ohonom ar hyn o bryd. Dyma ran olaf y weddi hon a baratowyd gan Gyngor Eglwys Cenedlaethol De Corea a'r Cydbwyllgor dros Gymod ac Aduniad yng Nghorea:

Dduw pob gras, rho dy ras i holl benrhyn Corea. Boed i belydrau dy dangnefedd di ddisgleirio o Baekdu i Halla a diwel ar y wlad gyfan gawodydd o lawenydd. Rho hapusrwydd i'r 80 miliwn o Goreaid drwy'r wlad a'r byd a thywys hwy i fod yn arweinwyr eu bywydau eu hunain. Nertha'u cymunedau i fod o wasanaeth i'r byd cyfan. Dduw tangnefedd, gweddiwn yn enw Iesu. Amen.

(I'w barhau)



## Taith Tractor - lluniau



150  
1867-2017

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrwl 150

Rhif 33

Awst 17, 2017

50c.

## CYNORTHWYO TRIGOLION TŴR GRENFELL

Yn dilyn y tân difrifol yn Nhŵr Grenfell yng ngorllewin Llundain penderfynodd dosbarthiadau ysgol Sul capel Soar, Maes-yr-haf yng Nghastell-nedd drefnu digwyddiad yn festri'r capel i godi arian i gynorthwyo'r dioddefwyr.

### Argyfwng

Cafodd y gwasanaethau brys eu galw yn gynnar ar fore Mercher, 14 Mehefin i'r tŵr ac o fewn munudau roedd deugain injan dân a byddin o ddiffoddwyr ar eu ffordd i'r safle. Adeiladwyd yr adeilad pedwar llawr ar hugain yn 1974 ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwariwyd £8.6

miliwn ar welliannau.

Lledodd y tân yn gyflym gan fod y gorchuddion plastig newydd sbon yn gwbl annigonol

### Haelioni Mawr

Roedd festri fechan y capel dan ei sang ac aelodau'r capel, yn ôl eu harfer, yn



fwy na pharod i gyfrannu a chefnogi. Codwyd £234 yn ystod y noson gyda'r plant yn bwrw ati i ddiddanu'n hwyliog er bod pawb yn ymwybodol mai'r trychineb erchyll ddaeth â phawb at ei gilydd. Diolchwyd yn gynnes i'r plant am eu cyfraniadau a throsglwyddwyd siec i Goleg Trefeca sy'n agor ei drysau yn ystod gwyliau hanner tymor yr Hydref i groesawu a diddanu plant a phobol ifanc Grenfell a effeithiwyd gan y tân eirias.

Mawr yw'n diolch i Owen, Awen, Cerys, Steffan Shopland, Ioan, Elis, Efa, Evan, Dylan, Tomos, Lili, Mali a Steffan Swithenbank.

## Y Parchg Maurice Loader

Trist nodi mawrolaeth y Parchg Maurice Loader, Caerfyrddin, yn 88 oed. Yn enedigol o Bont Llogel, Maldwyn cafodd ei ordeinio yn Hermon Brynaman, cyn symud i wasanaethau ym Methesda Llangennech a Chapel Als Llanelli. Bu hefyd yn Athro yn y Coleg Coffa, Abertawe am gyfnod ac yn gofalu am Seion Porth Tywyn am ychydig flynyddoedd ar ôl 'ymddeol' yn 1994. Bu'n briod â Mair am 63 mlynedd, a chydymdeimlwn yn fawr gyda hi a gweddi y teulu.

## Gweddi dros Corea

Mae Cyngor Eglwysi'r Byd a Chymuned Eglwysi Diwygiedig y Byd wedi gofyn i eglwysi ledled y byd ddynodi dydd Sul, 13 Awst, fel diwrnod i



weddi dros ailuno gwledydd penrhyn Corea trwy ddulliau heddychlon. Hyd yn oed os mai dim ond offrymu'r weddi hon y byddwch, mae angen cofio y byddwch chwi a'ch cynulleidfa yn rhan o rywbeth fydd yn digwydd ar draws y byd.

Offrymwn, felly, y weddi hon:

Duw a Thad yr holl genhedloedd, cyflwynwn i ti benrhyn Corea a'i phobl: gwlad wedi ymrannu'n ddwy, yn Dde a Gogledd ardal wedi ei chreithio gan ormes o'r tu allan, a'i dolurio gan anghydfod o'r tu mewn.

Trugarha wrthi a thosturia wrth ei phobl. Cynnal freichiau a gweledigaeth y rhai sy'n dyheu am gymod, undod ac iachâd.

Gofynnwn hyn yn enw dy annwyl Fab, Iesu Grist a ddaeth i chwalu muriau, i gymodi gelynyddion ac i greu un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun. Amen.

## Taith Tractor

Cynhaliwyd taith dractorau flynyddol yng ngofalaeth y Parchg Carys Ann er mwyn codi arian tuag at elusenu a hynny ar ddydd Sadwrn 27 Mai. Cychwynwyd ar y daith o festri capel Glynarthen ac fe aeth bron i ugain o dractorau o amgylch yr ardal am tua 10 milltir. Anelwyd i ddechrau am arfordir Aberteifi, i Llangrannog ac yna yn ôl i festri Capel Glynarthen am ginio tatws, selsig a pwdin crymbl afalau a chwstard! Yno yr oedd amrywiol stondinau wedi eu gosod. Cafwyd diwrnod ardderchog gan bawb. Roedd yr arian a gasglwyd ar hyd y daith dractorau yn mynd tuag at Capel Glynarthen ac Uned Ocsigen Aberteifi.



*mwyl o luniau ar y dudalen gefn*



# CRIST GERBRON PILAT

*Yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr, Rhydaman, 15 – 17 Mehefin, fe draddododd y Parchg Dewi Myrddin Hughes ddau fyfyrdd Beiblaidd cofiadwy, dwys a heriol. Dyma'r rhan gyntaf y myfyrddau hyn.*



**Darllenïad:** Efengyl Ioan 18:28–19:16

Pilat ydy'r dyn mwya pwerus yn y wlad: cynrychiolydd Cesar: fe ydy'r ymerodraeth fan hyn. Caiff Iesu ei wthio mewn cadwynau i sefyll o'i flaen, ar ei ben ei hun, ar ei drugaredd.

Mae rhai diwinyddion heddiw yn honni mai ein tasg gynta ni yw herio'r Ymerodraeth. Caiff y lleisiau hynny eu clywed yng nghynhadledd Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd mewn pythefnos. Dw i'n edrych ymlaen at weld llyfr newydd dan nawdd CWM, *Bible Theology from the Underside of Empire*. Pwy ydy'r Ymerodraeth heddiw? Y cryf a'r pwerus sy'n cael gwneud fel y mynnan nhw, sy'n trefnu pethe er eu mwyn eu hunain, ac yn ecploito'r gwan, lle mae elw yn cael blaenoriaeth ar draul pawb a phopeth arall: rhai llywodraethau a chorfforaethau byd-eang. Mae angen eu herio meddai'r diwinyddion. A dyma Iesu yn dewis bod ar drugaredd yr Ymerodraeth, ac mae ganddo ei werthoedd gwahanol.

## Praetoriwm

Mae'r treial yn digwydd yn y Praetoriwm, pencadlys Pilat yn Jerwsalem. Aiff yr Iddewon ddim i mewn rhag cael eu halogi cyn y Pasg. Dyna eironi: mae'r mân reolau crefyddol i'w parchu i'r eitha tra'u bod nhw yn trefnu i ladd Mab Duw.

Mae Pilat yn holi, 'Beth ydy'r cyhuddiad yn ei erbyn?' Mae hwnnw yn datblygu wrth fynd ymlaen.

1. Mae hwn yn droseddwr. Dyn drwg ydy hwn. Gwnaeth bethe drwg. Wir?
2. Nes ymlaen medden nhw; 'Fe ddylai farw; fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw.' Dyw hynny ddim llawer o broblem i Gesar, ac medden nhw:
3. Mae'n honni bod yn frenin; mae'n herio Cesar.

Wedi ei holi mae Pilat yn datgan, 'Nid wyf fi yn cael unrhyw achos yn ei erbyn. Wela i ddim bai arno.' Dim bai! Nid dweud mae Pilat bod rhyw fân droseddau yn dod i'r golwg, ond dim byd sy'n cyfiawnhau ei

ladd. Nage. Dim bai! Dair gwaith mae Pilat yn cynnig gollwng Iesu yn rhydd. Pan mae'n gofyn yr ail waith, mae hi ar ben ar Iesu.

## Croeshoelïer

Bob cynnig maen nhw'n ateb â'r un gri orffwyll. 'Croeshoelïer.' Bu'r awdurdodau Iddewig yn cynllwynio yn erbyn Iesu o'r dechre bron. Mae Marc yn gynnar yn y drydedd bennod yn sôn amdany'n nhw'n cynllwynio i'w ladd. Nid i'w garcharu, na'i alltudio, neu ei ddistewi rywsut, ond sut i'w ladd.

'Croeshoelïer ef!' Pam eu bod mor ffyrnig a ffaidd? Pam eu bod mor erchyll o greulon? Dw i'n ofni mai'r ateb ydy am eu bod yn cymryd eu crefydd o ddifri. Does dim yn bwysicach iddyn nhw na sofraniaeth Duw. Ac mae meddwl Duw wedi'i fynegi yn glir yn y Gyfraith, e.e. 'cadw'r seithfed dydd, na wna ynddo ddim gwaith,' a dyma hwn yn iacháu pobl ar y Saboth, ac yn cymryd arno'i hun i faddau pechodau – dim ond Duw all wneud hynny; ac mae'n ffrindie â'r bobl mwya anfoesol. Beth arall wnan nhw ond ei ladd? Mae iddyn nhw beidio yn golygu newid cyfeiriad yn llwyr, newid eu meddwl yn hollol, a hynny nid ar fater mynyl, ond ar y pethe pwysica yn eu golwg. Does dim yn bwysicach ganddyn nhw na bod Duw'r nef yn cael ei barchu, ac er mwyn sicrhau hynny maen nhw'n fodlon dweud celwyddau a galw tystion gau. Maen nhw'n credu'n gydwybodol bod Duw yn dymuno iddyn nhw ladd Iesu. Digwyddodd ymosodiadau erchyll ym Manceinion a Llundain yn enw Allah, ond pobl ar gyrion eithaf Islam oedd yn gyfrifol. Yr arweinwyr yw y rhain.

## Dynder Cudd

Mae'r siarad rhwng Iesu a Pilat yn syfrdanol. Mae Ioan yn gosod geiriau ar wefusau Pilat na alle fe'i hunan weld eu dynder. Dyma fe'n gofyn i Iesu, 'Beth yw gwirionedd?' Cwestiwn y cwestiynau. Meddai Francis Bacon, 'Gofynnodd Pilat y cwestiwn mawr i Iesu, ond wnaeth e ddim aros am yr ateb!' Yr eironi ydy na fu neb erioed yn nes at y gwirionedd nag ydy Pilat y foment hon, tase fe ond yn estyn ei law byddai yn cyffwrdd yn Iesu: Myfi yw'r Ffordd, Myfi yw'r Gwirionedd, Myfi yw'r Bywyd.

## Gwirionedd

Mae gwirionedd yn fwy na ffeithioldeb wrth gwrs, ond mae'n rhaid bod a wnelo gwirionedd â ffeithiau. Rydym yn byw mewn cyfnod o ôl-wirionedd, yn cael ein porthi â newyddion ffug. Fe gofiwch fws Nigel Farage flwyddyn yn ôl: allan o'r Undeb Ewropeaidd er mwyn i ni gael

£350m yn fwy bob wythnos i'r NHS. Gofynnwyd i Farage, 'Ydy hwn yn wir?' 'Nac ydy siŵr.' Ond fe ddaliodd y bws i ledaenu'r un neges. A'n gwaredo ni!

Mae Efengyl Ioan yn sôn cryn dipyn am y gwirionedd. Mae'r rhai sydd o'r gwirionedd yn clywed fy llais i, medde Iesu. Y gwirionedd, mae'n rhaid, yw'r hyn sy'n dal yn y diwedd. Pan fydd popeth arall wedi chwythu heibio, bydd y gwirionedd yn dal; yn Nuw mae'r gwirionedd. Peilat, rwy'ti mor agos, ac eto mor bell, wedi colli dy gyfle.

(I'w barhau)

## Eglwys Annibynnol Bethel, Tal-y-bont

Gwahoddir Ceisiadau am Weinidog/Arweinydd Rhan-amser I gynorthwyo ymdrechion yr aelodau (75 mewn nifer) i gynnal yr achos mewn pentref gwledig, bywiog a Chymraeg.

Dyddiad cychwyn **1 Ebrill 2018**,  
Telerau i'w Trafod

Ceisiadau trwy lythyr erbyn  
**15 Medi 2017**

Cysyllter â : Phil Davies,  
Gwynionydd, 4 Maes-y-felin,  
Tal-y-bont Ceredigion, SY24 5DZ  
01970 832384  
gwynionydd@btinternet.com

## CYMANFA BREGETHU GYDENWADOL RHOSHIRWAUN

Er yn hen ei hoedran hi  
Nid yw hon yn dihoeni.

Roger Jones

**Cynhelir yn y Neuadd  
ddyddiau Mercher a Iau  
16 a 17 Awst, 2017**

Nos Fercher  
am 6.30yh gwasanaethir gan:  
Y Parchg Dylan Rhys,  
Bae Colwyn (BEF)  
Yr Hybarch W. Rowlands,  
Llangristiolus (E)

Nos Iau  
am 6.30yh gwasanaethir gan:  
Y Parchg Carwyn Siddal,  
Llanuwchllyn (A)  
Y Parchg Robert Parry, Wrecsam (P)  
Llywydd: Mrs Doris Jones, Hebron  
Gwneir casgliad yn ystod yr oedfaon.

*Croeso cynnes i bawb  
Ceisiwn ymatal y dihoeni*

## Barn Annibynnol

### Gwirionedd yn newid a thyfu!

Yr wythnos ddiwethaf clywais rywun yn amddiffyn Tony Blair trwy ddweud nad oedd e wedi dweud celwydd am Irac achos ei fod e'n credu'r hyn a ddywedodd. Yn fuan wedyn tynnwyd fy sylw at y ffaith bod dau fath o wirionedd sef, gwirionedd feithiol a gwirionedd emosynol. Wedi meddwl, tybed oes yna sawl math arall o wirionedd - gwirionedd traddodiad, gwirionedd awdurdod - heb son am wirionedd Tryppaid! Y mae popeth, felly, yn gymhleth - mae hyd yn oed gwirionedd mathemategol yn gallu newid gyda rhyw amgylchiadau gwahanol.

#### Gweld o ran

Y mae darnau o lenyddiaeth yn cario sawl lliw sef, syniadau'r awdur ac wrth gwrs y mae'r darlennydd yn gweld y cyfan trwy ei lygaid ei hun. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae pobl fel yr Athro Richard Dawkins yn amheus iawn o elfennau o'r ffydd Gristnogol ond, wrth wrando ar bwt o "All Things Considered" un bore Sul, roedd person yn traethu gan ddweud nad

oedd Dawkins ond yn gwrthwynebu rhyw ffydd Gristnogol wahanol i'w fersiwn ef. Mae rhywun felly yn gorfod cytuno gyda'r Apostol nad ydym ond yn gweld o ran. Allwn ni ddim peidio â derbyn bodolaeth Cristionogaethau amrywiol iawn. Cristnogaeth barn, Cristnogaeth y diwedd (cyn fileniwm neu ôl fileniwm), Cristnogaeth yn dilyn rhyw broffwydoliaeth arbennig neu ryw osodiadau manwl arbennig am Dduw ac am ddyn. Mae'n ddiddorol fel y mae pobl yn gweld cymaint o amrywiaeth yn codi o un Beibl ac y mae'n ymddangos hefyd bod mwy nag un Ysbryd Glân. Y mae'n frawychus sylweddoli ein bod mor barod i fodloni ar weld pethau trwy ryw ffrâm athrawiaethol neu'i gilydd. Rwy'n aml yn gofyn a fyddai mwy o siâp ar ein capeli gyda mwy o Schleiermacher (bottom up) a thipyn llai o Calvin (top down)?



Eirian Rees

Herio'r Tywyllwch

Ble dw i arni? Alla i ond derbyn bod pob digwyddiad yn troi'n hanes a phob hanes yn troi'n stori. Wrth gwrs y mae hyn yn wir wrth ystyried yr Efengylau ac y mae'n

rhaidd inni ystyried hynny wrth inni wynebu bod bwch o ryw ddeugain mlynedd rhwng dyddiad Marc ac Ioan (a bod deugain mlynedd rhwng bywyd Iesu ac ysgrifennu Marc). Y mae Iesu'r Efengylau wedi ei drosglwyddo i ni drwy storïau sy'n cario rhywbeth am yr argraff roedd Iesu wedi ei adael. Nid rheolau a deddfau ond agwedd meddwl sydd gennym, e.e. agwedd tuag at estron, cleifion gyda salwch meddyliol neu gorfforol, gwraig amheus, ymateb i wladwriaeth dreisiol yn wleidyddol a chrefyddol, ynghyd â gweledigaeth o'r hyn sy'n dragwyddol wir. Onid rhestr o agweddau sydd yn y bregeth ar y mynydd? Yr her i mi yw gallu dal y cyfan o fewn fy mherson gan geisio cynnal rhyw gydbwysedd - onid dyna'r broblem fawr? Y mae naid mewn ffydd yn angenrheidiol i ymateb i'r Iesu ac i dderbyn yr agweddau a gysylltir ag Ef. Wedyn y mae'r Iesu'n cyfeirio'n meddwl gan arwain at fywyd iachus. I mi y mae ymateb i'r bywyd sydd yn Iesu yn cael ei wireddu o ddydd i ddydd, ac yn oleuni sy'n herio'r tywyllwch sydd o'm hamgylch.

Eirian Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

## John Elias o Fôn, 1774-1841

### Gweinidog (MC) a phregethwr

*Un o gymeriadau hanesyddol mawr bro yr Eisteddfod eleni oedd y gweinidog a phregethwr teithiol y Methodistiaid Calfinaidd, John Elias. Yn ystod ei oes gelwid ef yn un o dri chedryn y pulpud yng Nghymru, y ddau arall oedd Christmas Evans a'r hen seraff Williams o'r Wern. Dyma beth o'i hanes.*



Nid oes sicrwydd am ddyddiad ei eni ond fe'i bedyddiwyd 6 Mai 1774. Mab ydoedd i'r gwehydd a'r ffermwr Elias Jones a'i wraig Jane, Brynllwyn Bach, Abererch, Pwllheli. Yr oedd ei daid, John Elias, yn ddylanwad crefyddol trwm arno yn ystod ei blentyndod a phan ddechreuodd bregethu mabwysiadodd enw ei daid. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Hendre Hywel ym mis Medi 1793 ac fel pregethwr ar ddydd Nadolig 1794 yng Nghyfarfod Misol Brynrodyn. Yn fuan aeth y sôn amdano ar led ac fe aeth ar deithiau pregethu trwy Gymru, Lerpwl a Manceinion. Fel nifer o'i gyfoedion ychydig o addysg a gafodd ond bu am gyfnod byr yn ysgol Evan Richardson, Caernarfon, lle dysgodd beth Saesneg. Ordeiniwyd 1811 ymhlith gweinidogion ordeiniedig cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd.

Ar ddechrau'r 19eg ganrif ef oedd un

o'r pregethwyr grymusaf a mwyaf poblogaidd yng Nghymru oherwydd ei ddoniau areithyddol dramatig a'i bregethau Beibl ganolog. Tyrrai miloedd i wrando arno'n pregethu'r Efengyl a daeth miloedd i'r bywyd o dan ei weinidogaeth. Aeth rhai o'i oedfaon yn rhan o chwedloniaeth ein cenedl. Un enghraifft o hyn oedd oedfa awyr agored yng Nghaergybi lle yr oedd meddwon yn bresennol ac fe roddodd J.Elias hwy ar ocsiwn. Fe'i cynigiodd i'r gwahanol enwadau ac i'r diafol ond nid oedd neb yn barod i'w derbyn. Yr un ai prynodd oedd Iesu Grist er mwyn eu golchi a'u sancteiddio. Trwy ei bregethu hyrwyddodd achos dirwest a diweirdeb ac ymgyrchodd i ddileu'r gwylmabsantau a'r ffeiriau cyflogi ar y Sul oherwydd y credai eu bod yn esgor ar anfoesoldeb.

Dywedodd Owen Thomas, Lerpwl amdano: 'Fel pregethwr, yr ydym yn teimlo fod John Elias yn gwbl annysgrifiadwy. Yr oedd ynddo rywbeth ag y mae yn anmhosibl, dybygem ni, rhoddi un syniad amdano i'r rhai nas clywsant ef ei hunan, a rhywbeth oedd yn gwneud ei ddylanwad ar ei wrandawyr yn annghydarol ... Yr ydoedd, y mae yn ddiarnheul, y pregethwr mwyaf poblogaidd a chymmyrd y Dywysogaeth yn gyffredinol, a gododd erioed yn Nghymru.'

O ran cymeriad dywedir ei fod yn eithriadol o benderfynol, yn sicr iawn o'i farn ei hun ac yn dueddol o dra-arglwyddiaethu ar eraill. Dywedir mai dim ond un person allai

roi caead ar ei biser a hwnnw oedd ei gefnder y Parchg William Roberts, Amlwch. O ran diwinyddiaeth yr oedd yn Uchel-Galfinaidd a dim ond ar ôl ei farwolaeth ef a'i genhedlaeth y daeth Calfiniaeth cymedrol i ennill ei phlwyf yng Nghymru.

Oherwydd ei ddoniau cynhenid a'i bendantrwydd daeth yn un o arweinyddion y Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd ran allweddol yng nghyfansoddiad y Gyffes Ffydd a fabwysiadwyd ym 1823 ac yn natblygiad y Cyfundeb. Yr oedd yn geidwadol iawn yn wleidyddol ac yn gwrthwynebu i Gristnogion ymyrryd mewn gwleidyddiaeth. Gwrthwynebodd yn chwym y mesur i ryddfrenio'r Pabyddion ym 1832 trwy ddatgorffori Eglwys Jewin Crescent yn Llundain am gyfnod byr oherwydd bod rhai o'r aelodaeth wedi arwyddo deiseb o blaid y mesur.

Bu'n briod dwywaith. Yn y mis bach 1799 priododd Elizabeth, merch hynaf Richard Broadhead, Tre'r Gof, Llanbadrig, Môn, ac aeth i fyw yn Llanfechell, Môn i gadw siop gyda hi. Cawsant 4 o blant ond bu farw dau yn eu plentyndod. Bu hi farw ym 1822 ac ailbriododd ymhen dwy flynedd gyda gweddwr Syr John Bulkeley, Persaddfed, Bodedern. Symudasant i'r Fron Llangefni ac yno y bu ef farw 8 Mehefin 1841. Rhoddwyd ei weddillion ym mynwent Llan-faes ger Biwmares. Dywedid bod 10,000 o alarwyr yn yr angladd.

(Allan o'r gyfrol *Pobl y Ffordd 1 - Cant o Gristnogion Cymru* gan Alun Tudur)